## CABINET

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn YSTAFELL NBWYLLGORA 1a, NEUADD Y SIR, RUTHUN, Dydd Mawrth, 16 Ebrill 2013 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans (Cadeirydd), Julian Thompson-Hill, Eryl Williams, Bobby Feeley, Hugh Irving, Huw Jones, Barbara Smith a/ac David Smith.
Y Cynghorydd Ray Bartley, Meirick Lloyd Davies, Paul Penlington, Merfyn Parry, David Simmons, Huw Williams a/ac Win Mullen-James.

### HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Strategol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cwsmeriaid (HW), Moderneiddio a Lles (SE), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (AS), Prif Gyfrifydd (RW), Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol (TW) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

### 1 YMDDIHEURIADAU

Dim.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni wnaeth neb o’r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu ragfarnllyd ag unrhyw fater a nodwyd y byddai’n cael ei drafod yn y cyfarfod.

### 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw eitemau yr oedd y Cadeirydd o’r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Lleol, 1972.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 19 Mawrth, 2013.

***PENDERFYNWYD****:- bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 19 Mawrth, 2013 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a’u harwyddo gan yr Arweinydd.*

### 5 ADRODDIAD DIWEDDARIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd J. Thompson Hill yr adroddiad, a ddosbarthwyd eisoes, a oedd yn rhoi manylion cyllideb refeniw ac arbedion y cyngor fel y’u cytunwyd ar gyfer 2012/13, ar ddiwedd Mawrth 2013, a darparodd ddiweddariad cryno ar y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a’r Cynllun Cyfalaf Tai.

Eglurodd bod rhagolygon diweddaraf y gyllideb refeniw wedi cael eu cyflwyno fel Atodiad 1 ac roedd yn dangos tanwariant ar draws cyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol o £994k, £1.1m y mis diwethaf, a oedd yn cynrychioli amrywiad o 0.86% ar draws y gyllideb net gyfan. Roedd tua £849k wedi cael ei ymrwymo i ariannu gwariant yn gynnar yn 2013/14 neu wedi cael ei gynnig i'w ddefnyddio gan wasanaethau'r flwyddyn nesaf, gyda'r tanwariant oedd ar gael o bosibl yn £111k yn unig. Roedd y sefyllfa ysgolion yn amcanu symudiad net cadarnhaol ar falansau o £294k, £306k y mis diwethaf, ar gyllidebau dirprwyedig a £176k ar gyllidebau ysgolion heb eu dirprwyo, £161k y mis diwethaf. Roedd y symudiad ar gyllidebau ysgolion heb eu dirprwyo yn ymwneud â bod angen llai o wiriadau CRB yn ystod y flwyddyn na gynlluniwyd. Roedd crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai hefyd yn Atodiad 1 er gwybodaeth ond roedd hon yn gronfa ar wahân ac nid oedd yn rhan o brif gyllideb refeniw'r Cyngor.

Rhoddodd y Cyngor darged arbed net am y flwyddyn o £3.44m yng nghyllideb 2012/13 ac roedd 99.3% o'r arbedion wedi eu cyflawni neu wedi eu disodli gan ddod i swm o £3.418m. Roedd y £25k a oedd yn weddill yn ymwneud â'r prosiect rhesymoli argraffwyr ac roedd wedi ei ohirio tan y flwyddyn nesaf.

Yn y tri adroddiad cyllid diwethaf, roedd y testun ynglŷn â sefyllfa gwasanaethau cefnogol wedi cyfeirio at sawl cynnig i gyfrannu at gronfeydd wrth gefn neu gario balansau ymlaen i 2013/14. Mewn sawl achos, amseriad gwariant oedd y broblem. Byddai'r adroddiad canlyniad terfynol i'r Cyngor ym mis Mehefin yn cymeradwyo'n ffurfiol drosglwyddiadau i neu o gronfeydd wrth gefn neu falansau, gan gynnwys arian a gariwyd drosodd. Roedd Atodiad 2, yn rhoi crynodeb o'r eitemau a drafodwyd mewn adroddiadau blaenorol i'r Cabinet**.**

Roedd manylion amrywiadau gwasanaeth allweddol wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ac wedi eu crynhoi ar gyfer yr Aelodau. Roedd y meysydd allweddol a'r materion yn cynnwys:-

Gwasanaethau Oedolion a Busnes – Roedd yr alldro cyfredol yn gytbwys gydag unrhyw droswariant yn cael ei ariannu o'r Gronfa Cefnogi Pobl.

Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd – Roedd y tanwariant bach wedi cynyddo o £12k i £205k o ganlyniad i gynnydd bach mewn lefelau incwm. Roedd tanwariant Priffyrdd ac Isadeiledd wedi lleihau gan £16k i £158k gyda manylion y newidiadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Darparwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau oddi wrth yr Arweinydd:-

- Nid oedd y cynnydd mewn lefelau incwm wedi deillio o gynnydd yn y taliadau, ond yn seiliedig ar ragolygon o'r incwm a dderbyniwyd.
- O ganlyniad i'r tywydd garw a gafwyd byddai'r gyllideb Cynnal a Chadw y Gaeaf yn cael ei defnyddio a byddai hyn yn cael ei wrthbwyso gan y gyllideb cynnal a chadw cyffredinol. Cafwyd cadarnhad ar yr amod, ar y cyd ag Awdurdodau cyfagos, byddai cais yn cael ei gyflwyno ar gyfer cyllid argyfwng. Eglurodd y Cynghorydd D. I. Smith y byddai holl Awdurdodau Gogledd Cymru yn gofyn am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i drwsio'r difrod a achoswyd i'r rhwydwaith ffyrdd gan y tywydd garw. Cytunodd y Cynghorydd Smith i gyfleu'r pryderon a

fynegwyd gan y Cynghorydd Feeley ynglŷn â safon y gwaith a wneir gan y jetpatcher. Amlygodd y Prif Weithredwr bwysigrwydd cynyddu'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer gwaith cynnal a chadw priffyrdd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E.W. Williams at ardaloedd o'r Sir, yn enwedig ardaloedd gwledig, lle'r oedd cyflwr y ffyrdd wedi dirywio yn sylweddol yn sgil y tywydd garw. Gofynnodd i'r ardaloedd dan sylw gael eu nodi a'u cynnwys yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol priffyrdd, a dosbarthu copi o'r rhaglen i'r holl Aelodau. Eglurodd y Cynghorydd D.I. Smith byddai'r Rheolwr Adain: Rheoli Rhwydweithiau yn mynychu'r cyfarfodydd Grŵp Ardal Aelodau a byddai hyn yn rhoi'r cyfle i'r Aelodau gyfleu eu pryderon a'u dewisiadau o ran prosiectau yn y dyfodol.

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd – Rhagwelwyd byddai'r gwasanaeth yn tanwario gan £138k, £35k o dan y mis diwethaf, o ganlyniad i arbediad o £83k ar y gyllideb ffioedd mabwysiadu. Roedd yr ymgyrch recriwtio maethu wedi cael ei dal yn ôl a byddai'r £20k a glustnodwyd yn cael ei chario drosodd i 2013/14.

Tai a Datblygu Cymunedol - pwysau wedi'i adrodd o fewn y gyllideb yn berthnasol i ariannu costau colli swyddi o fewn y Gwasanaeth Adfywio.

Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden - Bu tanwariant o £27k, £1K y mis diwethaf, fodd bynnag roedd £25k yn ymwneud â thanwariant a gariwyd drosodd o 2011/12 ar y gyllideb Cyfathrebu a Marchnata. Cynigwyd clustnodi'r £25k i ariannu'r adolygiad y flwyddyn nesaf.

TGCh/ Trawsnewid Busnes – Roedd tanwariant y mis diwethaf o £27k wedi cynnwys darpariaeth ar gyfer costau posibl yn gysylltiedig ag archwiliad trwydded meddalwedd gan IBM a oedd wedi dangos yn y lle cyntaf gynnydd posibl i gostau trwyddedu'r Cyngor. Ni fyddai costau'n codi o ganlyniad i'r archwiliad.

Cwsmeriaid a Chefnogi Ysgolion – Bu gostyngiad yn y tanwariant o £26k o'r mis diwethaf i £232k, o ganlyniad i drosglwyddo'r £35k o danwariant ar Ad-drefnu Ysgolion i'r Gronfa Moderneiddio Addysg i helpu ariannu costau ad-drefnu ysgolion yn y dyfodol fel y gofynnwyd yn adroddiad y mis diwethaf.

Gwella Ysgolion a Chynhwysiant - Roedd newidiadau mân i'r alldro a ragwelwyd ar gyfer Addysg Arbennig, Cefnogaeth Ymddygiad ac adennill wedi arwain at ostyngiad yn y tanwariant a ragwelwyd o £142k i £126k. Roedd y gwasanaeth yn cynnig iddo gael ei ddefnyddio i gyfrannu at ariannu diogelu ysgolion a effeithir gan y newidiadau diweddar i'r fformiwla ariannu.

Ysgolion – Y rhagamcan ar gyfer balansau ysgolion oedd £2.114m, £2.125m fis diwethaf, a oedd yn symudiad positif o £294k ar falansau a gariwyd drosodd o 2011/12. Roedd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r ddwy ysgol a oedd yn cael anhawster ariannol, ac roedd gan y ddwy ysgol gynlluniau adfer ac roeddent yn gweithio'n galed tuag at y targedau a bennwyd yn y cynlluniau hyn. Rhagwelwyd tanwario £176k ar gyllidebau ysgolion na ddirprwywyd. Roedd cyfanswm cost diogelu wedi cael ei ragamcan yn £775k yn 2013/14.

Cyllidebau Corfforaethol – Roedd y rhain wedi cael eu pennu gan dybio bod £1.7m yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn fel rhan o'r strategaeth ariannu ar gyfer y Cynllun Corfforaethol. Roedd yn debygol byddai cyllidebau a glustnodwyd i gynhyrchu arian yn 2012/13 yn cynhyrchu mwy na'r targed o £1.7m a rhagwelwyd £75k.

Roedd y gwariant hyd at ddiwedd mis Mawrth yn £28.1m yn erbyn Cynllun Cyfalaf y cytunwyd arno o £31.1m. Byddai croniadau ar gyfer gwariant a ymrwymwyd o £3m yn golygu y cyflawnir y gwariant a ragwelwyd. Roedd Atodiad 3 yn dangos crynodeb sut byddai'r Cynllun Cyfalaf yn cael ei ariannu, ac yn Atodiad 4 roedd diweddariad ar y prosiectau mawrion o fewn y Cynllun. Roedd arian alldro'r rhagolygon cyllideb gyfalaf wedi cael ei ddiwygio ers y mis diwethaf i dybio cyllideb gytbwys. Roedd y symudiad o £150k wedi creu cyfle i ad-dalu dyled a oedd wedi gostwng gofyniad cyllido cyfalaf y Cyngor.

Roedd y rhagolygon Cyfrif Refeniw Tai diweddaraf a gwarged mewn blwyddyn o £72k, £12k o ddiffyg a adroddwyd y mis diwethaf, a oedd yn cymharu â gwarged a gyllidwyd o £71k. Roedd y symudiad o'r mis diwethaf o ganlyniad i wariant ar reoli a chynnal a chadw'n llai na'r hyn a ragwelwyd a chynnyrch rhent yn gwella, a rhagwelwyd i'r balans a gariwyd drosodd fod yn £943k. Roedd rhagolygon y Cynllun Cyfalaf Tai wedi gostwng ychydig o'r mis diwethaf fel byddai gwariant a gynlluniwyd yn rholio drosodd i 2013/14. Byddai Safon Ansawdd Tai Cymru yn cael ei gyflawni erbyn diwedd 2013/14 ac roedd adolygiad diweddar o'r Cynllun Busnes Stoc Tai yn cadarnhau ei fod yn ariannol hyfyw o hyd. Roedd crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Cyflawnwyd neu newidiwyd yr arbedion a gytunwyd ar gyfer 2012/13, gydag un eitem wedi ei gohirio i'r flwyddyn nesaf. Roedd y marchnadoedd arian dal yn ansicr ac yn dal i gyfyngu ar nifer y sefydliadau y gallai'r cyngor fuddsoddi gyda nhw a byddai'r strategaeth o wneud buddsoddiadau tymor byr yn debygol o barhau am y tymor canolig. Ar ddiwedd mis Mawrth, roedd cyfanswm y benthyciadau'n dal yn £133.27m ar gyfradd gyfartalog o 5.77% ac roedd cyfanswm y buddsoddiadau'n £11m ar gyfradd gyfartalog o 0.77%.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd:-

***PENDERFYNWYD****:- bod y Cabinet yn nodi'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol a gytunwyd arni.*

**6 YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR RAGLENNI CYLLID STRWYTHUROL ESF AC ERDF 2014 / 2020**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad, a ddosbarthwyd eisoes, yn ymwneud ag ymatebion Cyngor Sir Ddinbych i Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar y Rhaglenni Arian Ewropeaidd newydd ar gyfer 2014-2020.

Eglurwyd yn dilyn gweithdy ar 20 Mawrth 2013, gyda swyddogion ac Aelodau allweddol Sir Ddinbych, gan gynnwys aelodau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Partneriaeth Cynllun Datblygu Gwledig ac aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol Gwledig, bod ymateb drafft wedi cael ei lunio i ymgynghoriadau

LlC ar Raglenni Ewropeaidd newydd 2014-2020. Ystyriwyd y Blaenoriaethau Corfforaethol a Pholisïau Rhanbarthol eraill Llywodraeth Cymru, a gofynnwyd i'r Cabinet gadarnhau cefnogaeth ar gyfer yr ymatebion hyn ar ran y Cyngor Sir.

Ym mis Ionawr 2013, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriadau cyhoeddus cyfochrog ar Arian Strwythurol a Rhaglenni Datblygu Gwledig 2014-2020. Roedd y dogfennau ymgynghori yn cynnwys strategaeth rhaglen arfaethedig, blaenoriaethau buddsoddi, themâu sy’n trawstorri, archwilio rhai o’r materion gweithredu a darparu allweddol a chynnwys y dystiolaeth. Roedd y cynigion ar gyfer rhaglenni Cronfa Strwythurol newydd wedi’u datblygu gan ganolbwyntio ar dwf a swyddi, a oedd yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru; a nodau Ewrop 2020 sef twf doeth, cynaliadwy a chynhwysol.

Ar gyfer cyfnod rhaglennu 2014-2020 disgwyliwyd byddai Gorllewin Cymru a’r Cymoedd yn cymhwyso fel “rhanbarth llai datblygedig”: y lefel cefnogaeth uchaf sydd ar gael dan rownd nesaf y rhaglenni Arian Strwythurol. Roedd yr union swm arian Ewropeaidd a fyddai ar gael yn y cyfnod rhaglennu nesaf yn amodol ar ganlyniad trafodaethau ar gyllideb Ewropeaidd gan y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop. Byddai ymatebion i’r cwestiynau ymgynghori yn chwarae rhan bwysig wrth baratoi testun terfynol y Rhaglenni Gweithredol y byddai LlC yn eu cyflwyno i’r Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddarach yn 2013.

Roedd Sir Ddinbych wedi ymateb i’r ymgynghoriadau er mwyn sicrhau, yn ogystal ag alinio â pholisïau LlC ac Ewrop, byddai’r dogfennau Rhaglen Weithredol terfynol yn eu galluogi i gyflawni camau gweithredu o fewn Blaenoriaethau Corfforaethol Sir Ddinbych. Byddai ymatebion Sir Ddinbych hefyd yn cael eu cynnwys mewn ymateb rhanbarthol oedd yn cael ei ddrafftio ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a byddai hefyd yn cael ei gyflwyno i CLlLC i ffurfio rhan o’u hymateb Cymru gyfan. Roedd ymatebion Ymgynghoriad Sir Ddinbych wedi’u hatodi i’r adroddiad fel atodiadau.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am sut byddai'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol, costau a'u heffaith ar wasanaethau eraill, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac amlinelliad o unrhyw risgiau a'r camau gweithredu i'w lleihau. Eglurwyd bod Grŵp Aelodau a Swyddogion Allweddol wedi trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad a amlinellwyd yn yr adroddiad ac y byddai ymarferion ymgynghori pellach yn cael eu gwneud wrth i gyfleoedd cyllido ddatblygu.

Pwysleisiodd yr Arweinydd yr angen i godi proffil cronfeydd Strwythur Ewropeaidd o fewn y cyd-destun corfforaethol er mwyn cefnogi a datblygu Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Amlygwyd y gystadleuaeth o fewn y rhanbarthau i sicrhau cyllid a rhoddodd grynodeb o'r themâu arfaethedig a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a'r materion allweddol a ymgorfforwyd yn yr ymateb.

Cyfeiriodd y Cynghorydd H. Ll. Jones at y problemau a gafwyd o ran dosbarthiad ardaloedd gwledig a threfol ac eglurodd fod Dyserth bellach wedi'i ddosbarthu fel ardal wledig.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd H.C. Irving ynghylch darparu cymorth i fusnesau bach, yn enwedig materion yn ymwneud ag arian cyfatebol, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (CC: UECh) at y gwaith a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen mewn perthynas â datblygiad y Strategaeth Uchelgeisiau Cymunedol, a oedd yn amlygu'r angen am ddarparu cefnogaeth well, â mwy o ffocws a haws i'w lywio i fusnesau. Amlygwyd pwysigrwydd yr angen i sicrhau fod busnesau yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael drwy ddatblygu partneriaeth cyngor a chefnogaeth busnes ledled Sir Ddinbych.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd M.Ll. Davies ynghylch yr angen i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd gwell rhwng Gogledd a De Cymru, cyfeiriodd yr Arweinydd at y gwaith a wnaed gan y Bwrdd Uchelgais a chytunodd yr Aelodau dylid cyfeirio'r mater i'r Uwch Swyddog Cyllid Ewropeaidd ac Allanol i'w symud ymlaen.

***PENDERFYNWYD****:- bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod yn cefnogi ymateb Sir Ddinbych i Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd; a'r Polisi Diwygio Amaethyddol Cyffredin Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020: Y Camau Nesaf.*

**7 SYMUD O GYNLLUNIAU TREF I GYNLLUNIAU ARDAL**

Cyflwynodd y Cynghorydd H.H. Evans yr adroddiad, a ddosbarthwyd eisoes, a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth am y broses o ymestyn y Cynlluniau Tref yn Gynlluniau Ardal ehangach gan gynnwys cymunedau llai a mwy gwledig ledled Sir Ddinbych.

Eglurodd bod Cyngor Sir Ddinbych yn ystod 2011/12, wedi datblygu a chytuno ar Gynlluniau Trefol ar gyfer saith o brif drefi'r sir, heb gynnwys y Rhyl. Roedd ymarferiad wedi cael ei gynnal yn y Rhyl i ddatblygu Cynllun Darparu Y Rhyl yn Symud Ymlaen. Roedd y Cynlluniau Trefol wedi caniatáu i anghenion a blaenoriaethau cymunedol gael eu nodi ar gyfer pob prif anheddiad. Fodd bynnag, hyd yma, nid oeddent wedi delio ag anghenion a blaenoriaethau cymunedau llai a mwy gwledig. Ym mis Ionawr 2013, fe gytunodd y Cabinet i ehangu'r Cynlluniau Trefol yn Gynlluniau Ardal ehangach ac roedd yr adroddiad yn disgrifio sut byddai hynny'n digwydd. Roedd y Cynlluniau Tref ar gyfer Corwen, Dinbych, Llangollen, Prestatyn, Rhuddlan, Rhuthun a Llanelwy wedi cael eu cymeradwyo gan y Cabinet rhwng 2011 a Mawrth 2012.

Ym mis Ionawr 2013, fe gymeradwyodd y Cabinet ddyraniad cyllid cychwynnol ar gyfer prosiectau a nodwyd yn flaenoriaethau Blwyddyn 1 yn y Cynlluniau Trefol. Fe gytunodd y Cabinet ar yr un pryd i ehangu'r Cynlluniau Trefol yn Gynlluniau Ardal ehangach. Roedd Grŵp Cydlynu'r Cynlluniau Trefol wedi ystyried y broses briodol i ymestyn y Cynlluniau Trefol presennol yn Gynlluniau Ardal ehangach ac wedi delio â 3 phrif gwestiwn:-

i) Beth yw'r 'ardal' briodol ar gyfer Cynllun Ardal?

ii) Sut y dylid datblygu'r Cynlluniau Ardal?

iii) Sut olwg fydd ar y Cynlluniau Ardal?

Fe ystyriodd y Grŵp ddau opsiwn a oedd yn cynnwys Cynlluniau'n cwmpasu ardaloedd y Grŵp Aelodau Ardal (GAA), neu ardaloedd sy'n cynnwys y Trefi a'r cymunedau sydd â pherthynas draddodiadol neu naturiol â nhw. Oherwydd mai bwriad y Cynlluniau Ardal oedd cyflawni ymrwymiad y Cyngor i gynllunio'n seiliedig ar y gymuned a'i uchelgais i fod yn Nes at y Gymuned, daeth Aelodau'r Grŵp i'r casgliad mai'r ail opsiwn – Trefi a'u Cymunedau Cysylltiedig – oedd yr opsiwn dewisol. Roedd y grŵp yn credu bod Cynlluniau o'r fath yn haws i'w deall gan breswylwyr a byddai'r dull hwn yn unol ag arferion gorau mewn cynllunio a arweinir gan y gymuned a datblygiad economaidd trefi marchnad.

Roedd Atodiad 1 yn nodi'r cymunedau y byddai pob Cynllun yn ei gwmpasu, ac roedd y rhain wedi eu trafod a'u cadarnhau gan y GAA a chredwyd eu bod yn cynrychioli'r cysylltiadau naturiol a oedd yn 'ffitio orau' rhwng cymunedau a threfi. Daeth y Grŵp i'r casgliad y dylid cael cyfanswm o 9 o Gynlluniau, y 7 Cynllun Trefol presennol, Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen a Chynllun newydd ar gyfer Bodelwyddan, i'w datblygu pe bai'r Cynllun Datblygu Lleol arfaethedig yn cael ei gymeradwyo.

Roedd y Grŵp Cydlynu'r Cynlluniau Trefol yn cydnabod fod yn rhaid i ymgynghori lleol da fod yn sail i'r Cynlluniau Ardal newydd os oedden nhw i fod yn wirioneddol seiliedig ar gymunedau ac yn adlewyrchol o anghenion a blaenoriaethau lleol. Er mwyn sicrhau cysondeb y dull gweithredu, roedd y Grŵp Cydlynu wedi cadarnhau fframwaith eang ar gyfer ymgynghori ac roedd hyn wedi ei gynnwys yn Atodiad 2. Yn unol â'r Siarter Cynghorau Tref a Chymuned, roedd y cynigion wedi eu dylunio i sicrhau bod Cynghorau Cymuned yn arwain yr ymgynghori a'r ymgysylltu ar lefel leol

Amlygodd yr Arweinydd bwysigrwydd rôl y Cefnogwyr ac roedd y Grŵp wedi argymell bod y Cefnogwyr Cynlluniau Trefol, gyda chefnogaeth eu Swyddogion Cymorth, yn llunio cynlluniau ymgynghori manwl ar gyfer cymunedau llai a mwy gwledig i'w hymgorffori yn eu Cynllun Ardal yn unol â'r fframwaith hwn a byddai angen i'r GAA gadarnhau'r trefniadau ymgynghori lleol. Byddai nifer fechan o Gynghorwyr â chymunedau o fewn eu wardiau wedi eu hymgorffori mewn Cynllun Ardal a fyddai tu allan i'w GAA a chan byddai gan y GAA rôl bwysig yn natblygiad y Cynlluniau Ardal newydd, roedd y Grŵp Cydlynu'r Cynlluniau Trefol wedi ystyried y ffordd orau o ddelio â hyn ac roeddent wedi argymell y canlynol:

- Pencampwr y Cynlluniau Trefol i ymgynghori ag Aelodau Lleol ar y ffordd orau o ymgynghori â'u cymunedau unigol
- Gwahodd Aelodau Lleol ar ddechrau'r broses i nodi unrhyw faterion allweddol neu flaenoriaethau roedden nhw'n ymwybodol ohonyn nhw o fewn eu cymunedau, i hysbysu'r ymgynghoriad lleol
- Gwahodd Aelodau Lleol i ddod i gyfarfodydd perthnasol y GAA pan fo'r Cynllun Ardal yn cael ei ystyried i'w gymeradwyo. Os na fuasent yn gallu bod yn bresennol, byddai'r Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid, gan weithredu yn ei rôl fel Pencampwr Gwledig, yn gofalu bod buddiannau pob

cymuned wledig, yn cynnwys y rheiny sy'n dod dan ardal GAA yn arferol, yn cael eu hymgorffori'n ddigonol yn y Cynlluniau Ardal newydd.

Byddai'r Cynlluniau Ardal yn cael eu datblygu gan y Cefnogwyr Cynlluniau'n seiliedig ar ymgynghoriadau lleol a buasent yn cael eu hadolygu gan GAA. O'u cadarnhau gan y GAA, byddai'r Cynllun Ardal yn cael ei gyfeirio i'r Cabinet i'w gymeradwyo a gellid dyrannu cyllid ar gyfer y blaenoriaethau cynnar yn y cam yma. Roedd yn debygol y byddai rhai Cynlluniau Ardal yn dod yn eu blaen yn gynt na'i gilydd yn dibynnu ar gymhlethdod ymgynghori lleol ac argymhellwyd dyddiad targed o Fedi 2013 ar gyfer cytuno'r Cynlluniau Ardal i gyd.

Byddai 3 ardal eang i'r Cynlluniau Ardal newydd - un yn nodi'r weledigaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer pob tref, ail adran yn nodi sut y mae cymunedau llai a mwy gwledig yn cysylltu â'r Dref, a thrydydd yn mynegi unrhyw anghenion neu flaenoriaethau penodol ar gyfer y cymunedau llai a mwy gwledig. Byddai'r cynigion ymgynghori a amlinellwyd yn yr adroddiad ac a fynegwyd yn Atodiad 2 yn canolbwyntio ar ail a thrydedd adran y Cynlluniau.

Ni fwriadwyd ailymweld â'r adran Cynlluniau Trefol na'r blaenoriaethau yn y cam yma, er y byddai cyfnodau cyfnerthu a chryfhau'r Cynlluniau yn y dyfodol yn caniatáu adolygu problemau a blaenoriaethau wrth i amgylchiadau newid. Roedd trywydd ar gyfer camau datblygu yn y dyfodol wedi ei awgrymu yn Atodiad 3.

Roedd amlinelliad o'r costau a sut buasent yn effeithio ar wasanaethau eraill a'r trefniadau ymgynghori ar gyfer datblygu Cynlluniau Ardal wedi eu nodi yn yr adroddiad. Roedd y risgiau a oedd yn gysylltiedig â gweithredu'r Cynlluniau Ardal ehangach wedi cael eu manylu a buasent yn cael eu trin trwy'r broses a amlinellwyd yn yr adroddiad, ac yn benodol y cynigion ymgynghori a nodwyd yn Atodiad 2.

Pwysleisiodd y Cynghorydd H.Ll. Jones yr angen i sicrhau bod yr ardaloedd gwledig yn derbyn cyfran deg o'r cyllid oedd ar gael. Eglurodd byddai nifer o Gynghorau Tref a Chymuned yn penodi Cadeiryddion newydd ym mis Mai, 2013 a byddai'n bwysig sicrhau bod y llinellau cyfathrebu'n glir ac y cafwyd ymatebion i'r ymgynghoriad oddi wrth y bobl briodol. Pwysleisiodd y Cynghorydd E.W. Williams y pryderon a fynegwyd sef y gallai cymunedau gwledig golli allan gyda'r Cynghorau Tref yn cymryd rheolaeth o'r Cynlluniau. Eglurodd bod cymunedau yn hunangynhaliol i raddau, ond yn wynebu anawsterau o ran cael cyllid ar gyfer prosiectau yn eu hardaloedd eu hunain. Pwysleisiodd yr Arweinydd y pwysigrwydd o sicrhau bod cymunedau gwledig yn derbyn cefnogaeth i gael eu hawliau yn unol ag ardaloedd trefol y Sir. Cyfeiriodd y CC: UECh at dudalen 49 o Atodiad 3 a oedd yn amlygu camau 1 a 2 o'r gwaith i'w wneud a fyddai'n helpu mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Williams. Darparwyd amlinelliad o'r amserlenni a ragwelwyd ar gyfer y broses weithredu ar gyfer y Cynlluniau i'r Aelodau, a thrywydd ar gyfer camau datblygu yn y dyfodol wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

Rhoddwyd crynodeb o'r broses ymgynghori gan y CC: UECh a amlinellodd y gellid mabwysiadu'r gyfres o ddulliau a awgrymwyd gan y Tîm Cyfathrebu i ehangu ar y dulliau mwy traddodiadol o ymgynghori. Cytunodd yr Aelodau y dylai fod copi caled o'r broses ymgynghori ar gael i aelodau o'r cyhoedd pe baent yn gofyn am hynny.

Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cynghorydd P. Penlington, cyfeiriodd y CC: UECh at adrannau 4.11 a 4.12 yr adroddiad a oedd yn manylu ar y strwythur ac amlinellu tair adran eang o'r Cynlluniau Ardal newydd.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cadarnhaodd y Cynghorydd H. Ll. Jones y byddai'n barod i fynychu ac annerch yr holl gyfarfodydd Grŵp Aelodau Ardal.

***PENDERFYNWYD****:- bod y Cabinet yn cymeradwyo'r broses ar gyfer ehangu Cynlluniau Tref yn Gynlluniau Ardal ehangach fel nodwyd yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys yn benodol y:-*

- *cymunedau a gwmpesir gan bob Cynllun, a nodir yn Atodiad 1*
- *trefniadau ymgynghori, a nodir yn Atodiad 2*
- *disgwyliad bod y Cynlluniau Ardal yn cael eu cwblhau erbyn Medi 2013*

**8 CYNLLUN CORFFORAETHOL 2012/17 - CHWARTER 3**

Cyflwynodd y Cynghorydd B.A. Smith yr adroddiad, a ddosbarthwyd eisoes, fel yr oedd ar ddiwedd Rhagfyr 2012, yn rhoi diweddariad y trydydd chwarter ar ddarparu'r Cynllun Corfforaethol 2012-17.

Byddai adrodd yn rheolaidd yn ofyniad monitro hanfodol o'r Cynllun Corfforaethol i sicrhau bod y cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella. Cyflwynodd y Cynghorydd B.A. Smith yr adroddiad a rhoddodd grynodeb o'r Atodiad a oedd yn manylu ar bob canlyniad yn y Cynllun Corfforaethol a oedd yn cynnwys:-

- Datblygu'r economi leol
- Gwella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion
- Gwella ein ffyrdd
- Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu gwarchod ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl
- Strydoedd glân a thaclus
- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da
- Moderneiddio'r cyngor i sicrhau arbedion a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid

Ymatebodd y Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol (RhTGC) i gwestiynau oddi wrth Aelodau a chyfeiriodd at y diffiniad statws codau lliw ar dudalen 57. Roedd pob dangosydd a mesur perfformiad wedi cael statws yn disgrifio'r sefyllfa bresennol ac roedd y lliw yn rhoi disgrifiad o'r statws.

Eglurwyd bod hwn yn Gynllun Corfforaethol pum mlynedd a bod statws y dangosyddion unigol a'r mesurau perfformiad yn cael eu cefnogi gan ddata ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Roedd y meysydd canlynol lle efallai bod angen gwaith pellach wedi eu hamlygu yn yr adroddiad:-

\- Nid yw'r gwaith i ffurfioli cynlluniau ar gyfer cyrbau is wedi symud ymlaen ac roedd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a'r Cynllun Corfforaethol. Cytunodd y Cynghorydd D.I. Smith fynd ar drywydd pryderon a

godwyd gan y Cynghorydd J.R. Bartley mewn perthynas â ffyrdd heb eu mabwysiadu a materion cynllunio yn ymwneud â darparu cyrbau is yn ardal datblygiadau ar gyfer pobl anabl.

- Roedd canran y disgyblion sy’n gadael yr ysgol heb gymhwyster cymeradwy yn “flaenoriaeth ar gyfer gwella” ac angen ymdrechion parhaus i wella hyn i statws “derbyniol”. Cadarnhaodd y RhTGC y byddai disgyblion yn gadael yr ysgol heb gymhwyster cymeradwy am resymau tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod a thynnodd sylw'r Aelodau at baragraff 4.1.7 o'r adroddiad. Pwysleisiodd y byddai'n bwysig darparu sicrwydd fod pob cam posibl wedi’i gymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn. Eglurodd CC:C byddai adnabod y problemau yn gynnar yn hanfodol a theimlai’r Cynghorydd E.W. Williams byddai'r gwelliannau a gyflawnwyd yn Ysgol Uwchradd y Rhyl yn cael effaith gadarnhaol ar y ffigyrau a gynhyrchwyd. Ymatebodd y Cynghorydd Williams i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd P. Penlington gan esbonio byddai materion ynghylch lefelau cymhwyster yn cael ei ystyried mewn Gweithdy i'w gynnal ar 21 Mai, 2013.

- Roedd cyflwyno’r holl rybuddion cosb benodol wedi bod yn fwy na’r disgwyl, ond roedd cyflwyno rhybuddion cosb benodol ar gyfer baw cŵn wedi cael ei amlygu fel “blaenoriaeth ar gyfer gwella” gyda data yn awgrymu mai 2% yn unig o’r holl rybuddion cosb benodol a gyflwynwyd oedd yn ymwneud â baw cŵn. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd D. Simmons bod ardal Y Rhyl wedi cael ei thargedu, eglurodd y PW bod adnoddau wedi cael eu canolbwyntio ar ardaloedd lle nodwyd bod problemau gwrthgymdeithasol. Cadarnhaodd nad oedd ganddo unrhyw bryderon ynghylch rhybuddion cosb benodol a bod y fframwaith perfformiad wedi bod yn dda. Roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi datgan eu bod yn fodlon ar y gwaith a wnaed ac wedi mynegi eu cefnogaeth i'r fenter a gyflwynwyd. Bu gostyngiad sylweddol mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwelliant cyffredinol yn yr amgylchedd, a bwysleisiodd arwyddocâd a phwysigrwydd y prosiect.

- Wedi’i nodi fel "blaenoriaeth ar gyfer gwella" oedd canran y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd o fewn 10 diwrnod i’r gynhadledd amddiffyn plant cychwynnol, a oedd yn bwysig gan ei fod yn amlygu diogelu plant drwy brydlondeb cyfarfodydd grŵp craidd. Roedd perfformiad wedi bod yn gwella drwy gydol y flwyddyn ond roedd angen iddo barhau i wella o tua 10% i sicrhau statws "derbyniol".

- Roedd penderfynu ar geisiadau cynllunio deiliad tai ar amser wedi gwaethygu gan ddangos bod angen parhau i ganolbwyntio ar benderfynu ar geisiadau cynllunio’n brydlon.

Amlygodd yr ymdrechion cydlynu i ddwyn ynghyd yr wybodaeth a oedd ei hangen i baratoi adroddiad o’r fath fylchau mewn data, ac yn bwysicach, fylchau yn strwythur y blaenoriaethau ynghylch economi, moderneiddio a thai. Byddai angen darn cyffredinol o waith i hyrwyddo data a mynegi’n glir uchelgais y cyngor ar gyfer y Cynllun Corfforaethol. Deallwyd y sefyllfa gyfredol ar gyfer y mwyafrif o’r dangosyddion a’r mesurau perfformiad yn y Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, byddai angen gwell dealltwriaeth o uchelgais y Cyngor ar gyfer y dyfodol. Byddai hyn yn helpu’r Cyngor i ddeall a dilyn cynnydd tuag at ei uchelgais a helpu gydag adrodd, gan nad oedd nifer o ganlyniadau’n disgwyl gwelliannau’n syth. Byddai parhau i adrodd ynghylch rhywbeth fel "blaenoriaeth ar gyfer gwella" heb ddeall os

oeddent yn dilyn y trywydd cywir i gyflawni eu huchelgais tymor hir yn gallu edrych yn gritigol heb fod angen hynny.

Roedd yr Arweinydd yn teimlo bod y Cynllun Corfforaethol wedi chwarae rhan sylweddol mewn llwyddiant a chyflawniadau'r Cyngor a phwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau bod pawb yn deall eu rolau penodol o fewn y broses. Cyfeiriodd at bryderon a godwyd yn y Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn ddiweddar ynglŷn â dilysrwydd yr wybodaeth yn yr adroddiad ac eglurodd fod yr Aelodau Arweiniol priodol a Phenaethiaid Gwasanaeth wedi cytuno ar yr Amcanion Allweddol a'u bod yn ymwybodol o'r Dangosyddion Perfformiad fel y cawsant eu cyflwyno. Tynnodd sylw at rôl sylweddol y Pwyllgor Archwilio yn y broses a chadarnhaodd y dylai unrhyw feysydd sy'n peri pryder gael eu herio a'u monitro drwy'r sianelau priodol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd B.A. Smith at bryderon a godwyd yn y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a rhoddodd grynodeb manwl o gefndir y Cynllun a ddatblygwyd gan Aelodau a swyddogion. Cyfeiriodd at y dangosydd yn y Cynllun a oedd yn dangos y llwyddiant a'r mesurau a oedd yn asesu gweithgareddau. Roedd y ddwy elfen hon yn seiliedig ar ddata nid barn oddrychol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Smith byddai'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei adolygu'n flynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a oedd wedi cytuno'n wreiddiol ar y Cynllun. Cadarnhaodd y HBPP bod y Cynllun wedi cael ei ddilysu gan SAC a chytunodd i gynnal trafodaethau pellach gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio i egluro'r pryderon a'r materion a godwyd. Eglurodd y byddai cyfle pellach i herio a thrafod trwy'r Adroddiad Gwella Blynyddol, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mai, a'r broses Herio Gwasanaethau. Eglurodd y Cynghorydd D.I. Smith y byddai'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei ddefnyddio i helpu i nodi a mynd i'r afael â materion a allai fod angen sylw.

Dywedodd y PW wrth y Cabinet bod yr adroddiad wedi trosglwyddo negeseuon clir. Cyfeiriodd at yr angen am eglurhad ynghylch y diffyg cynnydd o ran cyrbau is a'r angen i osod targedau ar gyfer gwella, ac i ystyried y posibilrwydd o gyflwyno strategaethau i fynd i'r afael â'r mater annerbyniol o ddisgyblion yn gadael yr ysgol heb gymhwyster cymeradwy.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad a nodi sylwadau'r Aelodau yn ymwneud â'r materion perfformiad a godwyd.*

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd H.H. Evans raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cytunodd yr Aelodau ar y newidiadau canlynol ar gyfer eu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol:-

- Mabwysiadu'r Grŵp Llywio CDLl ym mis Gorffennaf 2013 yn lle mis Mai 2103.

- Cyflwyno'r adroddiad ar Ddefnyddio Contractwyr Allanol i Gyflenwi Gwasanaethau TGCh i Ysgolion i'r Cabinet ym mis Mehefin 2013 ac nid mis Gorffennaf 2013.

- Cynnwys adroddiad ar Gludiant Teithwyr Rhanbarthol yn Rhaglen Waith mis Mai 2013.

- Cynnwys adroddiad ar yr Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Gynlluniau Tref ac Ardal yn Rhaglen Waith mis Medi 2013.

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Cabinet, yn amodol ar yr uchod yn derbyn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 a.m.